

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i ColegauCymru ar 25 Gorffennaf 2016.

Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn amlinellu dyletswydd ColegauCymru i fodloni'r Safonau Iaith Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, gyda'r nod na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg, sef rhestr o'r hyn y mae'n rhaid i sefydliadau ei wneud a'i gyflawni yn Gymraeg, yn sicrhau y gall y rhai yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau yn Gymraeg wneud hynny. Mae'r Safonau hyn yn rhoi rhyddid ieithyddol i unigolion ddefnyddio'r y Gymraeg yng Nghymru.

Fel rhan o'r broses gydymffurfio, mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ColegauCymru gyflwyno Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn ariannol (Ebrill - Mawrth), a hwnnw'n rhoi sylw i sut y mae'r sefydliad yn glynu wrth y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, y Safonau Llundain Polisi a'r Safonau Gweithredu. Mae darpariaeth o fewn y Safonau hefyd sy'n ymwneud â chyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Adroddiad Blynyddol. Mae'r Adroddiad hwn yn dangos y cynnydd y mae ColegauCymru wedi'i wneud tuag at gydymffurfio â'r Safonau rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Mae ColegauCymru yn credu ei fod yn ymateb i'r Safonau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac mae eu gallu yn y Gymraeg wedi cael ei asesu'n ffurfiol fel rhan o'u swyddi yn ColegauCymru. Fel rhan o friffiau wythnosol y tîm cyfathrebu, mae diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi am sut i wella arferion gweithio yn unol â hynny, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac yn fwy ffurfiol yn ein diwrnodau tîm i ffwrdd ddwywaith y flwyddyn.

Mae ColegauCymru wedi ymrwymo i annog yr holl dîm i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg gwaeth beth yw lefel eu gallu, gan greu amgylchedd gweithio dwyieithog lle bydd defnyddio'r Gymraeg yn cael ei groesawu a'i annog. Rydym hefyd yn cefnogi dysgwyr a siaradwyr llai hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd cefnogol heb farn.

Cefndir

Cyfres o ofynion sy'n rhwymo'n gyfreithiol yw'r Safonau, a'r rheini'n ceisio gwella'r gwasanaethau dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl eu cael gan nifer o gyrff cyhoeddus a statudol, gan gynnwys ColegauCymru. Mae gan ColegauCymru gyfrifoldeb i roi gwasanaethau dwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae gofyn i ColegauCymru gydymffurfio â'r safonau hyn:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llundio Polisi
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Nod y Safonau yw:

- Egluro i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- Ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.
- Gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella'u hansawdd

Cyfrifoldeb dros y Gymraeg

Y Rheolwr Cyfathrebu yn arwain ar y gwaith hwn ar draws y sefydliad. Gan weithio gyda'r Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus, mae'r ddwy'n sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i helpu staff i ddeall eu rôl wrth gynorthwyo ColegauCymru i fodloni'r Safonau.

Mae canllawiau ar gael i'r holl staff i gynorthwyo cydymffurfiaeth. Mae prif elfennau'r canllawiau yn ymdrin â goblygiadau ymarferol gweithio o ddydd i ddydd i fodloni'r Safonau, megis sut i ateb y ffôn; sut i drefnu cyfarfodydd; a chymryd dewis iaith cyfranogwyr i ystyriaeth.

Mae materion cydymffurfiaeth Gymraeg yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Rheolwr Cyfathrebu.

Rheolir materion cydymffurfio iaith Gymraeg o ddydd i ddydd gan y Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Rheolwr Cyfathrebu.

Mae'r Rheolwr Polisi yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn weithredol a'i hymgorffori ym mhob maes o ddatblygu polisi a gweithgarwch materion cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys asesu effaith bosibl cynigion polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg, cynghori cydweithwyr ar arfer gorau i hyrwyddo dwyieithrwydd, a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a deddfwriaeth berthnasol y Gymraeg. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys gweithio ar y cyd ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid allanol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi ei normaleiddio mewn addysg bellach a thu hwnt.

Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Mae gan ColegauCymru a Chomisiynydd y Gymraeg berthynas waith dda sy'n eu gweld yn cefnogi ei gilydd wrth hyrwyddo'r Gymraeg mewn addysg ôl-16.

Nod cydweithio a phartneriaeth yw tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn addysg academiaidd a galwedigaethol, cynyddu'r ddarpariaeth o'r cwricwlwm Cymraeg/dwyieithog a rôl hanfodol colegau addysg bellach wrth gefnogi cymunedau dwyieithog i ffynnu a chyflawni cynaliadwydd economaidd.

Mae ColegauCymru wedi ymrwymo i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg

- Cynigir hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff i gefnogi gweithrediadau busnes a datblygiad unigol. Mae Colegau Cymru yn talu am gost a/neu ryddhau staff o'r gwaith at y diben hwn.
- Rydym yn hyrwyddo cyrsiau blasu Cymraeg byr ar-lein i staff.
-

Cyflawniadau nodedig ar gyfer cyfnod 2025/26

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom barhau i gryfhau ein hagwedd at Safonau'r Gymraeg, gan gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y sefydliad a chefnogi staff i ymgysylltu â gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo.

1. Cryfhau cydymffurfiaeth a monitro

- Cwblhau Holiadur Hunanasesu Safonau'r Gymraeg a'i gyflwyno ym mis Ionawr 2026. Cafodd y canfyddiadau eu hymgorffori yn ein hadroddiadau monitro a chydymffurfio.
- Parhau i ddarparu adroddiad misol ar Safonau'r Gymraeg i'r Uwch Dîm Rheoli, gan gefnogi goruchwyliaeth barhaus o gydymffurfiaeth, cynnydd a meysydd i'w datblygu.
- Ymgysylltu parhaus â Chomisiynydd y Gymraeg a gweithgareddau cydymffurfio perthnasol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyfarfodydd, gweminarau, cynadleddau a sesiynau arfer da.
- Mynychu Cynhadledd Arfer Da Comisiynydd y Gymraeg yng Ngholeg Cambria ar 18 Tachwedd 2025, gan gael mewnwelediad i ddulliau sy'n cael eu mabwysiadu gan sefydliadau eraill a rhannu arfer da.
- Cymryd rhan mewn Sesiwn Arferion Da ym mae Gweithdrefnau Cwynion am y Gymraeg ar 21 Ionawr 2026, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu parhaus ein dull o ymdrin â chwynion yn y Gymraeg.

2. Cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad staff

- Cyflwyno 'Gair yr Wythnos' i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac i gynyddu gwelededd geirfa Gymraeg yn y gweithle.
- Hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol ac iaith Gymraeg allweddol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae a'r Eisteddfod Genedlaethol, gan helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant ymhlith staff.
- Cefnogi Diwrnod Defnyddia Dy Gymraeg ym mis Rhagfyr 2025 fel cyfle i annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.
- Mynychu Fforwm y Gymraeg yn y Gweithle ar 15 Ionawr 2026 a lledaenu gwybodaeth, mewnwelediadau ac enghreifftiau o arfer da allweddol o'r digwyddiad i gydweithwyr, gan gefnogi ymwybyddiaeth ehangach ac ymgysylltu â'r Gymraeg ar draws y sefydliad.
- Mynychu digwyddiad Grymuso'r Gymraeg drwy Lywodraethiant Cadarn ar 16 Medi 2025 a rhannu gwybodaeth allweddol a dysgu o'r digwyddiad gyda chydweithwyr, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gryfhau a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad.

3. Datblygu staff a hyfforddiant Cymraeg

- Sicrhau bod aelodau staff newydd yn derbyn hyfforddiant priodol ac ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg.
- Cefnogi cydweithiwr i ymgymryd â chwrs Cymraeg lefel mynediad, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad, gan gyfrannu at ddatblygu a chryfhau sgiliau Cymraeg o fewn y sefydliad.
- Parhau i godi ymwybyddiaeth staff o'u cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg drwy gyfathrebu mewnol rheolaidd, adrodd a hyfforddiant gan gynnwys sesiwn gloywi ar “ddiwrnod cwrdd i ffwrdd” y sefydliad ym mis Rhagfyr 2025.

4. Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

- Mynychu digwyddiad ar-lein 'Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg' ym mis Mawrth 2026, a oedd yn cynnwys astudiaethau achos gan sefydliadau, gan roi cyfleoedd i ddysgu o'u profiadau a rhannu arferion da o ran hyrwyddo a chynyddu gwelededd gwasanaethau Cymraeg.

5. Ymgysylltu â'r Gymraeg a chwaraeon

- Cymryd rhan mewn digwyddiad yn archwilio'r Gymraeg mewn chwaraeon yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ym mis Mawrth 2026, a oedd yn cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau gan sefydliadau eraill, gan roi cyfle i ddysgu o'u profiadau a rhannu arfer da wrth hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn chwaraeon. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnig cyfle i gynyddu dealltwriaeth o rôl a defnydd y Gymraeg o fewn chwaraeon a lles (maes datblygu allweddol i'r sefydliad) ac i ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a hyrwyddo pellach gyda'n rhanddeiliaid presennol.

6. Technoleg a'r Gymraeg

- Mynychu'r digwyddiad Technoleg a'r Gymraeg ar 9 Rhagfyr 2025, gan gefnogi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau, cyfleoedd ac arferion da mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylcheddau technoleg a digidol.

Cynnydd cyffredinol

Yn ystod cyfnod 2025/26 gwelwyd cynnydd parhaus o ran ymgorffori Safonau'r Gymraeg o fewn arferion sefydliadol. Roedd y cyflawniadau allweddol yn cynnwys cryfhau monitro ac adrodd cydymffurfiaeth, cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad staff, cefnogi datblygiad staff, hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a chymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau cenedlaethol a mentrau arfer da.

Mae cyflwyno Gair yr Wythnos, hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol Cymreig yn rheolaidd, adrodd UDRh parhaus a hyfforddiant staff parhaus wedi darparu ffyrdd ymarferol o gynyddu gwelededd a defnydd bob dydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad. Mae ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a digwyddiadau allanol hefyd wedi galluogi'r sefydliad i barhau i gael gwybod am arferion da a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y dirwedd Gymraeg ehangach.

Cwynion – yn unol â Safon 141

Darparu Gwasanaethau - Mae ColegauCymru yn ddarostyngedig i 64 o Safonau Gwasanaeth.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chydymffurfio â'r Safonau Gwasanaeth.

Llunio Polisiâu - Mae ColegauCymru yn ddarostyngedig i 9 Safon Llunio Polisi.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi.

Gweithredol - Mae ColegauCymru yn ddarostyngedig i 42 o Safonau Gweithredol.

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chydymffurfio â'r Safonau Gweithredol.

Sgiliau a dysgu Cymraeg - yn unol â Safon 145

Sgiliau Cymraeg staff ColegauCymru ar 31 Mawrth 2025. Gwnaethom archwiliad sgiliau Cymraeg o staff gan arwain at y canfyddiadau canlynol:

- Mae 5 o'r 16 aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Recriwtio – yn unol â Safon 148

Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorio fel swyddi lle:

- Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol: 0 swyddi
- Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan gafodd eu penodi i'r swydd: 0 swyddi
- Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol: 3 swydd
- Nid oedd angen sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol: 0 swyddi

Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu fel sgiliau Cymraeg hanfodol neu'n ddymunol. Rydym yn esbonio lefel y sgiliau sydd eu hangen i gyd-fynd â chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r disgrifiadau swydd a'r tudalennau glanio swyddi gwag ar y wefan yn nodi'n glir bod ColegauCymru yn orangeiddio dwyieithog balch a'n bod yn croesawu gohebiaeth a cheisiadau yn Gymraeg. Rydym hefyd yn hysbysebu'n glir ein bod yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Cysylltiadau

Rachel Cable, **Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus**

Lucy Hopkins, **Rheolwr Cyfathrebu**

Cyfeiriad: U7, Cae Gwyrdd Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB.

Ffôn: 029 2052 2500 (croesewir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg).

Ebost: helo@colegaucymru.ac.uk

Mae ColegauCymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg, yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rhif Elusen Gofrestredig 1060 182, Rhif Cwmni Cofrestredig 2832103.